



Pris: 50c

Papur Pawb

Rhagfyr 2014 Rhif 404



Cynnau'r
goleuadau
Nadolig



Atgofion
Nadolig



Tud 4
Faciwîs

Tud 9
O Geredigion i Ghana

Tud 12
Chwaraeon

Galw'r Gwasanaethau Achub



Llun: Iestyn Hughes

Nadolig Llawen i'n holl ddarllenwyr!



Prynu a gwerthu yn Ffair y Neuadd

Cafwyd tipyn o gyffro yn Nhal-y-bont a Bont-goch nos Sadwrn 6 Rhagfyr gyda'r frigâd dân a chriwiau achub o Aberystwyth a Machynlleth yn cael eu galw i achub dyn a oedd wedi syrthio mewn un o siafftau gweithfeydd mwyn Bwlchglas. Roedd nifer o gerbydau gyda'u goleuadau glas yn fflachio yn teithio yn ôl ac ymlaen ar hyd y ffordd i Bont-goch.

Mae'n debyg y bu angen defnyddio rhaffau i achub y dyn, ond adroddwyd ei fod mewn "cyflwr da" a chafodd ofal gan y Gwasanaeth Ambiwylans ar ôl cael ei achub.

Dwi'n cofio un Nadolig pan ...

...ro'n i wedi gofyn am feic am flynyddoedd, a chael siom eto. Codi a dim sôn am feic. Fe bwdes i a llusgo nhraed i fynd allan i roi bwyd i'r gwartheg, ond beth oedd allan yn y sied ond dau feic, un i 'mrrawd a minne. Anghofies i am y gwartheg ac roedd yn rhaid mynd ar y beic yn syth er nad oeddwn wedi bod ar feic erioed. Do, fe es yn syth i mewn i wal a methu mynd ar y beic am ddyddie! (1969)



Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:	Gwyn Jenkins Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion golygydd@papurpawb.com Cysyllter â golygyddion y mis	(01970) 832560
Tynnu lluniau:		
Tal-y-bont:	GOHEBYDDION LLEOL Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont Eirlys Jones, 91 Maes-y-deri, Tal-y-bont Dilys Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r-ddôl Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl Lona Mason, Maes y Coed, Ffwrnais	832592 832438 832483 832498 832566 832230 832429 (01654) 781260 (01654) 781324
Eglwysfach/Ffwrnais:		
Cadeirydd:	Helen Jones, Gellimanwydd, Tal-y-bont	832760
Is-gadeirydd:	Gerwyn Jones, Dôl Pistyll, Tal-y-bont	832203
Ysgrifennydd:	Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont	832344
Trysorydd:	Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont	832093
Tanysgriadau:	Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont	832448
Hysbysebion:	Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont	832076
Plygu'r Papur:	Gwenllian Parry-Jones; Tegwen Jones	
Dosbarthwyr:	John Leeding; Lynn Ebenezer; Gwenllian Parry-Jones; Carys Briddon	

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

Digwyddiadau Nadolig Siop Cynfelyn

14 Crefftau Nadolig i Blant

Dydd Sul, 2.30-4.30p
Gweithgareddau amrywiol, megis addurno torth- sinsir a chreu addurniadau. Mynediad am ddim.

16 Ogorf Siôn Corn

Dydd Mawrth, 1.30p-3p
Dewch i gwrdd â Siôn Corn - £1 y plentyn gydag anrheg.

21 Ogorf Siôn Corn

Dydd Sul, 2-4p
Dewch i gwrdd â Siôn Corn - £1 y plentyn gydag anrheg.

23 Storiâ Nadolig- Morgan Tomos

Dydd Mawrth, 3-4p
Storiâ i blant gyda'r awdur llyfrau plant Morgan Tomos. Amser dylunio i ddilyn wedyn. Mynediad am ddim.

24 Ogorf Siôn Corn

Dydd Mercher, 2-4p
Dewch i gwrdd â Siôn Corn - £1 y plentyn gydag anrheg.

Pob dydd Iau

Gwau a Chlonc: 7.30 - 8.30

(Bydd rholiau Twrci poeth ar werth trwy gydol mis Rhagfyr - gweini'r y rhain gyda stwffin a saws llugaeron cartref)

Cofiwch ymweld â gwefan Papur Pawb
papurpawb.com

GOLCHDY LLANBADARN

CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DWFES MAWR
CITS CHWARAEON

GERAINT JAMES
Ffôn: 01970 612459
Mob: 07967235687

Valrosan, Pwllhobi, Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth SY23 3SL



Dyddiadur



Rhagfyr

14 **Bethel** 10.00 Gweinidog
6.00 Gwasanaeth Nadolig
Cymunedol
(Merched y Wawr)

Nasareth 11.15 Bugail
(C)

Rehoboth 10.00 Bugail
(C)

Eglwys Dewi Sant 11.00
Cymun Bendigaid

15 Neuadd Goffa 6.30 yh
Cyngerdd Nadolig a
Noson Goffi
(Cylch Meithrin,
Tal-y-bont)

17 Neuadd Goffa, Tal-y-bont
8.00. Gyrfa Chwist

21 **Bethel** 2.00 (C)
Gweinidog
Nasareth Oedfa Nadolig
yr Ofalaeth
Rehoboth Oedfa Nadolig
yr Ofalaeth

Eglwys Dewi Sant 5.00
Gwasanaeth Carolau
Teuluol
(Coffi, Te a Mins Peis)

24 **Bethel** 5.30 Oedfa
Nadolig yr Ysgol Sul

25 **Bethel** 10.00 Oedfa Bore
Nadolig
Eglwys Dewi Sant 8.30
Oedfa Bore Nadolig

28 **Bethel** 10.00 Gweinidog
(C)
Rehoboth 10.00 Parch
Terry Edwards

28 Eglwys Dewi Sant 10.00
Oedfa Gymunedol
(Coffi Te a Mins Peis i
ddilyn)

Ionawr 2015

4 **Bethel** 10 Gweinidog
Nasareth Uno ym Methel

Rehoboth 5 Bugail

Eglwys Dewi Sant 11
Cymun Bendigaid

11 **Bethel** 5 Gweinidog
Nasareth 11.15 Bugail
(C)

Rehoboth 10 Bugail
(C)

Eglwys Dewi Sant 11
Cymun Bendigaid

13 Cwrdd Chworiydd

Rehoboth

Pysgota yn Alaska

(Ceri Jones)

Golygyddion y rhifyn hwn
oedd Medi, Llio a Mared,
gydag Elgan yn dylunio.
Golygyddion mis Ionawr
fydd Bleddyn a Delyth
(huws.henllan@btinternet.
com), gyda Iolo yn dylunio.
Y dyddiad cau ar gyfer
derbyn newyddion fydd
dydd Gwener 2 Ionawr a
bydd y papur ar werth ar 9
Ionawr 2015.

Nadolig Llawn a Blwyddyn

Newydd Dda i fy ffrindiau a
holl ddarllenwyr **Papur Pawb**
oddi wrth Kathleen Richards,
Bryn, Tal-y-bont. Nid wyf yn
medru danfon cardiau eleni,
ond byddaf yn rhoi cyfraniad
tuag at elusen.



Mae **Eleri** a **Gwilym**,
Meisgyn, yn dymuno
Nadolig Llawn a
Blwyddyn Newydd Dda
i'w holl ffrindiau yn ardal
Papur Pawb.

Gwesty'r Llew Du
Black Lion Hotel

ARCHBWCHEIC PARTI DOLIG GYDA NI!
BWYD DA... CWMNI DA...

Tal-y-bont, Aberystwyth
01970 832 555
gwestyllewdu.com
SWYDDI BLAEN Tŷ AR GAEL
CYSYLLTWCŷ Â NI!



Noddir gan
Lywodraeth Cymru

Os am gynnwys manylion am
weithgareddau eich mudiad neu'ch
sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech
anfon y manylion llawn at Glenys
Edwards, Cartrefle, Tal-y-bont
(01970 832442)
glensyedwards33@btinternet.com
o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn
nesaf o Papur Pawb.



Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad buan i Juliet Regan, Free Trade Hall, Taliesin, ar ôl ei llawdriniaeth yn ddiweddar.

Tristwch

Trist iawn yw cofnodi i Michelle, Haulfryn, Taliesin farw'n ddiweddar. Rydym yn cydymdeimlo'n fawr â'i theulu.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Ffion, Ioan a Hedydd, Llety Llwyd, Tal-y-bont. Bu farw brawd Ffion, Owen, trwy ddamwain ac yntau ond yn 26ain.

Roedd Owen yn fab i Glyn a Lorinda Jones, Fferm Cwmrhaidr, Glaspoell. Cydymdeimlwn â theulu Tanrallt yn ogystal, mae Glyn yn gefnder i Ellyw.

Cydymdeimlwn gyda Brian Jones, Penlôn, Tal-y-bont a Rita Llwyd ar farwolaeth eu brawd Meurig Jones, Penparcau; hefyd Ifan Jenkins, Pengwern, Tal-y-bont, sydd wedi colli chwaer a Mark Joseph sydd wedi colli ewythr.

Genedigaethau

Croeso cynnes i Osian Siôn a anwyd i Catrin a Sion Glyn, Y Llew Du. Mae Efa mor falch o gael bod yn chwaer fawr.

Llongyfarchion hefyd i Rhydian ac Eifiona Jones Tynant ar enedigaeth Ieuan Meurig brawd bach i Mari.

Da clywed mai Daniel Rhys fydd enw babi newydd Dylan a Lynwen Pentrebach.

Cartref newydd

Mae'n dda gweld golau unwaith eto yn Rhiwlan. Croeso mawr i Nia Evans a Marc Richards i'w cartref newydd ar y bryn.

Penblwydd Hapus

Penblwydd Hapus i Mrs Valma Jones, Y Wern a fydd yn 95 ar 13 Rhagfyr.

R.S. Thomas

Os ydych yn hoff o waith R S Thomas gwnewch nodyn



Pobl a Phethe

Ar y llwyfan dros y Nadolig

Llongyfarchiadau i Heledd Medi Davies, Gwynfryn ar gael ei dewis i chwarae un o'r prif rannau (Susan Walker) yn *Miracle on 34th Street*, sioe Nadolig Canolfan y Celfyddydau eleni. Mae Heledd wedi bod yn ffodus i gael perfformio cymeriad o un o'i hoff ffilmiau Nadolig, ond yn well byth yr addasiad ar gyfer y llwyfan, sy'n llawn canu a dawnsio. Mae'r addasiad hwn o'r ffilm enwog yn cynnig gwledd i'r teulu ac yn bendant o gael pawb mewn hwyliau da ar gyfer y Nadolig Gallwch weld Heledd mewn pedwar perfformiad, ar y 18fed, 20fed, a'r 22ain o Ragfyr. Pob lwc i ti Heledd.

o'r dyddiadau canlynol pan y cynhelir Gŵyl Lenyddol R S Thomas yn Eglwysfach 11-13 Medi 2015. Bydd cyn Archesgob Caergaint Dr Rowan Williams yn siarad yn yr ŵyl ar 11 Fedi.

Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach

Dymuniadau gorau i'r Parchedig Cecilia Charles a fydd yn gadael ganol mis Ionawr. Diolch ichi am eich gwaith a'ch cefnogaeth dros y

4½ mlynedd ddiwethaf a phob hwyl yn eich ardal newydd ger Caerfyrddin.

Cymdeithas y Chwiorydd

Cynhaliwyd cyfarfod o Gymdeithas y Chwiorydd yn festri Rehoboth, Tre-Taliesin ar brynhawn Mawrth, 11 Tachwedd. I ddechrau'r cyfarfod darllenodd ein Llywydd soned o waith T.E. Nicholas cyn cyflwyno ein siaradwr gwadd, Hywel Wyn Jones o Lanrhystud.

Traddododd Hywel yn ddiddorol iawn am hanes a bywyd 'Niclas y Glais', gŵr arbennig fel pregethwr, heddychwyr, llenor a bardd toreithog. Roedd nifer o'r chwiorydd yn cofio amdano pan oedd yn byw ac yn gweithio fel deintydd yn Aberystwyth. Diolchwyd i Hywel gan Carys Briddon, a pharatowyd y te ar y diwedd gan Non Griffiths ac Eirlys Jones.

Clwb Nos Wener

Cafwyd noson llawn talent cerddorol gan Ynyr Llwyd a'i gitarydd gwych Aled yn y Llew Du fis diwetha. Cofiwch am ein noson ar Ionawr 23 pryd bydd y ddwy actores Rhian Morgan a Llio Silyn yn cyflwyno A Gymri di Gymru, sioe wedi 'i seilio ar gerdd ein bardd/llenor lleol Robot Gruffudd. Mynnwch eich tocynnau yn fuan.



Dwi'n cofio un Nadolig pan ...

... roeddwn i'n 9 mlwydd oed. Roeddwn wedi gofyn i Santa, a bron a marw eisiau dol. Ac nid unrhyw ddol. Roedd hon yn sefyll tua 24" o daldra gyda'r gwallt mwyaf euraidd. (1981)

Dwi'n cofio un Nadolig pan ...

... daeth cyfnod oer hiraf yr ugeinfed ganrif a deg wythnos o rew di-baid. Ar ei waethaf aeth y tymheredd mor isel â -16C gradd yn y gwynt dwyreiniol a ddaeth i ben ar y 7 o Fawrth.

Nid yw byd wedi ei niweidio gan heidiau dynol di-hid, di-fater, gwastraffus, yn debygol o roddi gwefr oer debyg i Dal-y-bont fyth eto. (1962)

Faciwîs

Roeddwn yn falch o gael gwahoddiad yn ôl i Ysgol Llangynfelyn gan Rhian y Pennaeth Cynorthwyol i gwrdd â phlant ac athrawon Ysgol Anfield Road, Lerpwl fu yno fis yn ôl. O'r ysgol honno y daeth 97 o blant at 96 ohonom ni ar ddechrau'r ail ryfel wrth ddianc o fomiau'r ddinas i ddiogelwch cefn gwlad. Wedi dod ar y trên i'r Borth daeth bws a nhw i Daliesin ac i festri Rehoboth a finne yno yng nghwmni Mam. Pfeindwyd cartref i bawb ar wahân i George Robinson ac er nad oedd lle yn ein cartref bychan ni yn Stryd Isa (Terrace Row) o dan y capel bu gyda ni am noson. Daeth i'r gwely at Iorwerth a fi ond ychydig o gwsg a gawsom am fod George yn ei ddagrau yn hiraethu am ei rieni.

Trannoeth cafodd George gartref ym Modhyfryd gyda'r brodyr Lloyd a'i chwaer. Doedd gan George fwy na ninne ddim carpedi ar lawr ei gartref ond roedd rhai gan y Llwydiaid a'r faciwi yn cerdded arny'n nhw a baw y figyn ar ei sgidie! Yn y dyddiau cyntaf bu'n anodd i'w ffrindie ag yntau addasu mewn gwlad agored am eu bod wedi'u magu yn y strydoedd cyfyng yn ymyl eu hysgol heb fod ymhell o gael pêl-droed Anfield. Ond digwyddodd hynny a dysgu'r Gymraeg yn o fuan – roedd yn rhaid iddyn nhw gan na fedrem siarad yr iaith fain.

Deuai' faciwi's gyda ni i'r ysgolion Sul a gwelais gofnod yn llyfr ymwelwyr yr ysgol,

22 Mawrth 2006, gan Betty o Lerpwl yn sôn am ei chwaer a'i brawd yn Nhre'r-ddôl, 1939-1944, yn mynd i Soar ac wrth ddychwelyd i Lerpwl yn cael Beibl gan bobol y capel Wesle. Rwy'n cofio fod y faciwi's yn ymuno â ni yn y cyfarfodydd cystadleuol ac ambell dro yn ein curo am adrodd a chanu yn Gymraeg!

Cofiaf hefyd am un o ferched Lerpwl yn bwrw pont ei hysgwydd o'i lle wrth chwarae gyda ni ger gweithdy Jac Wynne y crydd. Cyrchwyd Dr D. O. Williams, Cletwr Hall, oedd yn feddyg esgryn rhagorol ac wrth roi'r ysgwydd yn ôl yn ei lle roedd y ferch yn gweiddi a'r hen Ddoctor yn dweud, 'Pam fod y plant diarth ma yn sgrechen yn ein pentre ni?'

Wrth sgwrsio gyda phlant y ddwy ysgol roedd rhai Anfield Road wedi rhyfeddu pan ddangosais dri llun o'u ysgol ('It's our school Sir') a dynnwyd ganrif yn ôl pan oedd Olwen a Harri Williams rhieni Gwenda fy ngwraig yn ddisgyblion yno. Roedd y ddau wedi'u magu gerllaw'r ysgol lle'r oedd eu teuluoedd o Fôn ac Arfon wedi ymsefydlu. Yn ôl yr athrawon does fawr o newid wedi bod y tu mewn na'r tu allan gyda'r brics sydd yn wal dosbarth Harri gynt yn dal yno!

Mae'r plant a'r athrawon am inni alw yn yr ysgol pan awn i Lerpwl i weld anti Olwen, yr unig un sydd ar ôl o deulu Gwenda yn y ddinas bellach.

W.J. Edwards



Grwp Chwarae Taliesin



Cylch Meithrin Tal-y-bont

Sioe Ffasiynau

Yn dilyn Sioe Ffasiynau lwyddiannus yn Neuadd Goffa Tal-y-bont gan Sefydliad y Merched, Taliesin, penderfynodd y pwyllgor rannu canran o'r elw rhwng Cylch Meithrin Tal-y-bont a Grwp Chwarae Taliesin. Ar ran Aelodau Sefydliad y Merched Taliesin, cyflwynodd Beti Wyn (Llywydd), Liz Roberts (Ysgrifennydd) a Kath Jones (Trysorydd) adnoddau chwarae newydd i'r plant a'r staff.



Llongyfarchiadau i Sefydliad y Merched, Taliesin, Liz Roberts, Meinir Fleming, Chris Gilbert, Val Walsh am ennill y nifer uchaf o farciau yn Rali Aeaf y mudiad ddydd Sadwrn 15fed o Dachwedd. Roedd cystadleuaeth uchel eu safon yn y Rali yn Llwynecelyn eleni a bu aelodau y gangen yn ymdrechu i gefnogi y gwahanol gystadlaethau. Daeth Liz Roberts yn gyntaf yn y bisgedi addurniedig a hi fydd yn cynrychioli y Sir yn y Ffair Aeaf yn Llanelwedd.

Cronfa Eleri

Blwyddyn 2014 – dros £19,000 i'w rannu

Gwahoddir ceisiadau am gymorth i gynlluniau sy'n gydnaws ag amcanion y Gronfa



Ffurflen gais a manylion ar gael o: www.cronfaeleri.com

Neu gan: Ysgrifennydd Cronfa Eleri

Garreg Wen

Tal-y-bont

Ceredigion SY24 5HJ

Tel: 01970 832551 e-bost: ymholiadau@cronfaeleri.com

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Ionawr 17eg 2015

Amcanion Cronfa Eleri

'Hybu bywyd cymdeithasol, addysgol a diwyllianol cynhenid yr ardal sydd wedi ei chanoli ar Mynydd Gorddu'

Cylch Meithrin Tal-y-bont

Parti Peintio

Ar brynhawn Sul, 12fed o Hydref, daeth criw o staff a rhieni at ei gilydd i gynorthwyo gyda'r gwaith o gynnal a chadw'r adeilad. Diolch am roi o'ch amser ac am eich cefnogaeth – mae'r offer yn edrych yn hyfryd!

Parti Calan Gaeaf

Ar nos Wener, 31 Hydref daeth llu o greaduriaid rhyfedd eu golwg i'r Neuadd Goffa yn Nhal-y-bont i fwynhau Parti Calan Gaeaf. Gwledd yn wir oedd gweld yr holl wisgoedd ffansi. Daeth Terry a'i ddisgo eleni eto i ddiddanu'r plant a chafwyd cystadleuthau y wisg ffansi orau a'r bwmpen orau. Codwyd swm sylweddol i'r Cylch Meithrin. Diolch i Staff y Cylch – Shan, Lynwen, Gaynor, Karren ac Anwen am eu cefnogaeth parod ac i'r rhieni hynny a fu'n brysur yn paratoi ar gyfer y noson. Tynwyd raffl a dymunwn ddiolch yn enfawr i fusnesau'r pentref – Garej Davmor, Y Llew Gwyn, Y Llew Du, Siop Spar, @ebol, Y Lolfa a'r Fferyllfa sydd yn fodlon rhoddi bob blwyddyn.



Parti Ffarwel Anwen

Cynhaliwd parti ffarwel i Anti Anwen ar y 15fed o Hydref i ddiolch am ei blynedd o wasanaeth yn y Cylch

Meithrin. Roedd y Caban yn fwrwm o blant roedd Anwen wedi eu haddysgu gyda rheini yn hel atgofion o'u plant yn y Cylch. Maent bellach yn yr ysgol Uwchradd a thu hwnt! Diolch i'r rhai a fu'n brysur yn paratoi ar gyfer y parti. Diolch Anwen am dy gefnogaeth a dy wasanaeth dros y blynedd oedd – paid a bod yn ddiethr!

Ras 10k Aberystwyth

Dymunwn ddiolch i Tom Cosson am redeg Ras 10k Aberystwyth ar ddydd Sul, 7fed o Ragfyr i godi arian i'r Cylch Meithrin – diolch yn fawr a da iawn ti am y gamp!

Sioe Ffasiynau

Diolch yn fawr i Sefydliad y Merched Taliesin am eu haelioni yn dilyn y sioe.

Ymuno â ni yn y Cylch!

Mae'r Cylch Meithrin yn cwrdd yn y Caban sydd ar dir Ysgol Gynradd Tal-y-bont. Ceir awyrgylch groesawgar a chartrefol ac mae cyfle i blant gymdeithasu a dysgu trwy chwarae dan arweiniad staff proffesiynol, cymwys a brwdfrydig. Os hoffech i'ch plentyn fynychu'r Cylch Meithrin yma yn Nhal-y-bont, rydym yn cwrdd pedwar bore'r wythnos rhwng 9 a 12 o'r gloch, Llun – Iau. Cysylltwch â cylchmeithrintal-y-bont@hotmail.co.uk am fwy o fanylion.

Cyngerdd Nadolig/Noson Goffi

Cofiwch am Gyngerdd Nadolig a Noson Goffi y Cylch Meithrin ar nos Lun, y 15fed o Rhagfyr am 6.30 o'r gloch yn y Neuadd Goffa, Tal-y-bont.

Dau Diffibrileiddiwr i Dal-y-bont

Mae grwp llifogydd Tal-y-bont yn trefnu i brynu dau diffibrileiddiwr ar gyfer y pentref.

Y syniad yw eu gosod o fewn y gymuned er mwyn darparu gwasanaeth brys i'r pentref cyfan. Bydd yr offer ar gael bob awr o bob dydd ac mae'r peiriannau'n gweithio'n awtomatig ac yn arwain y defnyddiwr drwy'r camau angenrheidiol.

Er mwyn sicrhau bod nifer digonol o bobl wedi derbyn hyfforddiant ar gyfer defnyddio'r peiriannau mae deuddeg aelod o'r grwp llifogydd wedi'u hyfforddi mewn techneg CPR a defnyddio diffibrileiddiwr drwy'r cynllun 'Heart start' gyda Glan Davies a'r hyfforddwr Keith Holmes.

Bydd yr offer yn cael ei ddarparu drwy gynllun Calonnau Cymru. Mae'r grwp wedi gwneud cais am gefnogaeth elusen lleol ar gyfer un o'r peiriannau ond mi fydd angen codi £500 er mwyn prynu ail uned.

Y bwriad yw cynnal nifer o ddigwyddiadau codi arian yn y pentref er mwyn cyrraedd y nod.

Eglwys Sant Mihangel Egwylsfach Gŵyl y Nadolig

Gŵyl Goeden Nadolig

Rhagfyr 13 a 14, 20 a 21
Ar agor 11.00 – 4.00 o'r gloch

Cantorion Dyfi

Nos Sul 14 Rhagfyr, 7 o'r gloch
Derbynfa yng Ngwesty Ynyshir i ddilyn

Gwasaneth Boreol

Y Parch, Stuart Bell
Sul 21 Rhagfyr 9.30 o'r gloch

Gwasaneth Carolau

Sul 21 Rhagfyr 4 o'r gloch
Derbynfa yng Nghastell Glandyfi i ddilyn

Gwasanaeth Cymun

Diwrnod Nadolig, 9 o'r gloch

Croeso i bawb



DIGWYDDIADAU MORLAN:

- Plygain Morlan (7.30, nos Fercher, 17 Rhagfyr): croeso cynnes i bawb.
- The World is my Country (7.00, nos Lun, 12 Ionawr): ymunwch â'r gweithredwyr heddych Emily Johns a Gabriel Carlyle am sgwrs am y mudiadau a'r unigolion fu'n gwrthwynebu'r Rhyfel Byd Cyntaf. Bydd cyfres o bosteri (gan Emily Johns) yn darlunio hyn i'w gweld yn Morlan 7-14 Ionawr.
- Noson Gwis Morlan (7.30, nos Fercher, 21 Ionawr): cwis blynyddol ble mae capeli ac eglwysi lleol yn cystadlu am Darian Her Morlan.

Manylion llawn ar wefan Morlan:
www.morlan.org.uk

Morlan, Morfa Mawr,
Aberystwyth, SY23 2HH
01970-617996; morlan.aber@gmail.com;
@CanolfanMorlan

CYMDEITHAS SICE TAL-Y-BONT GYRFA CHWIST DOFEDNOD

Neuadd Goffa Tal-y-bont
Nos Fercher 17 Rhagfyr 2014
Am 8.00 o'r gloch
Croeso cynnes i bawb

DOD I NABOD



Dyma'r ail mewn cyfres newydd achlysurol yn Papur Pawb pryd y byddwn yn cyflwyno rhai cymeriadau diddorol sydd wedi dod i fyw yn yr ardal yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn rhifyn Hydref cawsom hanes Wayne Aubrey, y tro hwn mae Mared Llwyd wedi bod yn holi **Cynrig Tegla Williams**.



Mae Cynrig yn byw ym Min y Gors, Tre Taliesin gyda'i wraig Cathryn, un o ferched fferm Moelgolomen, Bont Goch, a Cadi Wen eu merch fach. Dyma ddod i'w adnabod ychydig yn well...

O ble wyt ti'n dod yn wreiddiol?

Cefais fy ngeni yn Fife yn yr Alban, cyn i fy nheulu symud i Gaerfyrddin pan oeddwn i'n ddwy oed. Dwi wedi bod yn byw yn ardal Aberystwyth ers wyth mlynedd bellach.

Ble cefai ti dy addysg?

Yn Ysgol Gyfun Bro Myrddin, cyn graddio mewn Cymdeithaseg ym Mhrifysgol Plymouth.

Pryd a pham ddest ti i fyw i Dre Taliesin?

Ar ôl cwmpo mewn cariad gyda Cath, bedair blynedd yn ôl. Unwaith iddi flasau fy ffa pŵb ar dost, doedd dim troi nôl!

Ble wyt ti'n gweithio?

Dwi'n gweithio fel rhan o Adran Gyfathrebu Hybu Cig Cymru yn Aberystwyth.

Beth wyt ti'n mwynhau gwneud yn dy amser hamdden?

Treulio amser efo Cath a Cadi Wen, a chwarae'r gitar. Dwi hefyd wrth fy modd yn syrffio efo'r criw lleol pan mae na donnau.

Beth wyt ti'n ei hoffi fwyaf am fyw yn Nhre Taliesin?

Y golygfeydd, y niwl sy'n gorchuddio'r gors yn y boreau, a cherdded yn yr ardal efo Cadi a Cath.

Ffair y Neuadd

Unwaith eto eleni cafwyd Ffair lwyddiannus a chodwyd dros fil o bunnau i goffrau'r Neuadd, a mi hoffen ni ddiolch i'r mudiadau hynny sydd yn ein helpu ni bob blwyddyn drwy gynnal stondin.

Mae sawl pwrpas i'r Ffair - cyfle i gyfarfod â chymdogion, ffrindiau, pobol y Pentre ac hefyd mae'n ffordd i ni Bwyllgor y Neuadd i godi arian i'r coffrau. Mae aelodau'r Pwyllgor yn awyddus iawn i gadw'r ffioedd yn isel i'r holl ddefnyddwyr felly mae'r arian a godir yn y Ffair yn ffordd o gadw'r costau llogi yn gymharol isel. Mi wnaethon ni arbrofi eleni hefyd gan ofyn i dri busnes lleol ddod â stondin i'r Ffair er mwyn chwyddo nifer y stondinau a chynnig mwy o ddewis i fynychwyr a rydyn ni'n ddiolchgar i'r Lolfa, Siop Cynfelyn a Ruth Jên am ddod â chymaint o gynnyrch lliwgar a deniadol.

Diolch i'r stondinwyr i gyd, i'r rheiny fu wrthi'n fore'n gosod y Neuadd, a'r rhai fu'n coginio cacennau ac yn gweini te ac am wneud y pawns yn llwyddiant.

Catrin MS Davies

Cymdeithas Treftadaeth Llangynfelyn

Cafwyd noson ddifyr yng nghyfarfod mis Tachwedd. Daeth sawl un ag eitemau o ddiddordeb iddynt i ddangos, a chawsom glywed am gysylltiad personol yr eitemau â'r ardal.

Clywsom am sefydlu'r Women's Institute yn y plwyf a chlywed pigion o'r cofnodion cynnar.

Dangosodd un aelod ddarn o grochenwaith yr oedd wedi ddarganfod wedi ei gladdu ar lwybr, a hwnnw heb yr un nam arno. Gwelsom gap 'bomb' trwm iawn. Darllenwyd dipyn o hanes Mr Richard Evans, yr adeiladwr o'r plwyf, bu'n gyfrifol am godi rhai o dai y plwyf.

Dangoswyd sawl peth a ddefnyddiwyd ar fferm Dolclettwr, rhagflas inni o'r hyn y cawn tro nesaf byddwn yn cwrdd, gan taw Roland Dolclettwr sydd a gofal y noson.

Noson ddiddorol â chartrefol iawn, rhaid gwneud hyn eto.

Dwi'n cofio un Nadolig pan ...

... yr atgof cyntaf sydd gen i o'r Nadolig yw pan o'n i'n 3 oed yn 2004. Roedd Mamgu, Tadcu a fy modryb yn dod i dreulio diwrnod Nadolig gyda fi, fy chwaer fach, Mam a Dad yn ein tŷ ni. Dad oedd y 'chef' y diwrnod hwnnw ac fe fu'n brysur trwy'r bore yn paratoi gwledd, ond yn anffodus ni chafwyd cyfle i fwynhau'r twrci na'r 'trimmings' achos bod pawb yn sâl! Roedd pawb wedi dal 'byg' a ciwio am y tŷ bach oedd ein hanes ni i gyd ar y diwrnod mawr.

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com

01970 832760

Afiaith

Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

K Hughes

Plymio a Gwresogi

Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129
07761 917235

Salon Leri
Pob agwedd o drin
gwallt gan Richard
10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674

Gwasanaeth Scanio ARTHUR MORGAN

Pencfeen, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
01239 615085 - 07721 786292

Bistro Gannets



Bwyd a Gwin Da
7 St James Square, Aberystwyth

617164

Ar agor Llun i Sadwrn
12-2 a 6-9.30

Merched y Wawr, Tal-y-bont a'r Cylch

Nos Lun, 17 Tachwedd, daeth Iestyn Hughes atom i ddangos lluniau a dynnwyd ganddo yn ystod y flwyddyn. 'Y flwyddyn trwy lens y camera' oedd testun y noson a chafwyd cyflwyniad ddiddorol iawn ganddo.

Brodor o Ynys Môn ydy Iestyn ond mae wedi byw yn ardal Bow Street ers dros ddeng-mllynedd-ar-hugain ac hyd ei

ymddeoliad, ef oedd yn gyfrifol am Adran Sgrîn a Sain yn y Llyfrgell Genedlaethol. Ers ei ymddeoliad mae wedi bod yr un mor brysur, ond y tro hwn, yn hytrach na thrin lluniau a dynnwyd gan eraill, ef sydd y tu ôl i'r camera.

Gwelwyd un o'i luniau ar dudalen flaen y Daily Telegraph yn ystod y flwyddyn. Ef oedd enillydd

cystadleuaeth 'Llun y Flwyddyn' yng Ngŵyl Golwg eleni.

Roedd y noson yng ngofal Diana Jones ac Eryl Evans a diolchwyd iddo am noson hynod o ddifyr.

Rydym wrthi'n ymarfer ar gyfer Gwasanaeth Nadolig Gymunedol yng Nghapel Bethel, Tal-y-bont ar 14 Rhagfyr. Croeso i bawb i'r gwasanaeth.

Ysgol Tal-y-bont

Gweithdy Crefftau

Roedd hi'n braf i weld bod y Nadolig wedi dechrau yn Ysgol Tal-y-bont wrth i ni groesawu Karen a Mary o wasanaeth dysgu teulu Ceredigion i'r ysgol i gynnal sesiwn gyda theuluoedd plant y Cyfnod Sylfaen a'r Cylch Meithrin. Bwriad y weithgaredd oedd rhoi cyfle i rieni weithio gyda'u plant mewn awyrgylch gynhaliol ac i gael hwyl wrth greu rhai addurniadau Nadolig.



Rotari

Llongyfarchiadau mawr i Glain Davies ac Oisín Lludd am eu llwyddiant yng nghystadleuaeth ysgrifennu Clwb Rotari Aberystwyth. Roedd y gystadleuaeth yn agored i blant Cylch Aberystwyth a'r gamp oedd ysgrifennu darn o waith am ddiwrnod arbennig ym mywyd y plant. Eleni daeth Glain yn ail ac Oisín yn drydydd.

Gŵyl Aml-sgiliau

Ers rhai misoedd, mae'r ysgol wedi bod yn dilyn rhaglen hyfforddiant sy'n cael ei drefnu gan swyddogion y sir i godi diddordeb, ymrwymiad a mwynhad y plant mewn chwaraeon o bob math. Cafodd pawb hwyl wrth roi cynnig ar bethau newydd ar gampws Prifysgol Aberystwyth yn gynharach y mis hwn.

Gala nofio

Bu saith o ddisgyblion yn cystadlu yng ngala nofio yr Urdd, rhanbarth Ceredigion. Llongyfarchiadau mawr i Libby, Emily, Nia, Glain, Oisín, Elinor a Tomos am eu hymdrech ardderchog.

Gweithgareddau lles

Mae Llywodraeth Cymru'n rhoi pwyslais mawr ar les plant Cymru ar hyn o bryd. Fel rhan o'r cynllun hwnnw daeth cynrychiolydd o Wasanaeth Ysgolion ChildLine atom i gyflwyno'r gwaith pwysig hwn yn yr ysgol. Bwriad yr ymweliad oedd dysgu'r plant i ddeall yn well sut i amddiffyn eu hunain rhag cael eu cam-drin, a gwybod at bwy y gallant droi am gymorth. Hoffwn ddiolch yn fawr am y cyfle o fod yn rhan o'r diwygyddiad ac fe wnaeth y plant fwynhau'r gweithgareddau'n fawr.

Clwb ar ôl Ysgol

Hoffai aelodau pwyllgor y Clwb ar ôl Ysgol ddiolch yn fawr i bawb a wnaeth gyfrannu ar gyfer y stondin



Plant Mewn Angen

Penderfyniad y Cyngor Ysgol eleni oedd gofyn i'r plant a'r staff i wisgo eu dillad nos i'r ysgol er mwyn codi arian i'r elusen bwysig yma.

gacennau a gynhaliwyd yn yr ysgol ar ddiwedd y mis ac i'r Cyngor Cymuned am gytuno i gyflwyno grant hael i'r clwb hefyd. Y mae'r clwb

yn ddibynnol ar nawdd er mwyn cynnig y gwasanaeth pwysig yma i rieni ac rydym yn gwerthfawrogi pob cymorth yn fawr iawn.

mudiad meithrin
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar

Cam wrth Gam
hyfforddiant blynyddoedd cynnar

Eisiau gweithio gyda phlant ifanc?

Dyma gyfle gwych i chi ennill cymhwyster **Diploma Lefel 3 CACHE** mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant yn y gweithle.

Mae'r cynllun hyfforddi cenedlaethol yma yn cael ei gynnal gan Mudiad Meithrin, trwy ei is-gwmni Cam wrth Gam, o 1 Ebrill 2015 hyd 31 Mawrth 2016.

Gwahoddir siaradwyr Cymraeg a dysgwyr da i ymgeisio am le ar y cynllun hyfforddi rhan-amser yma a leolir mewn cylchoedd meithrin, meithrinfeydd dydd neu ysgolion cynradd ledled Cymru.

Am bescyn gwybodaeth ffoniwch: **01970 639 601**

neu e-bostiwch: post@camwrthgam.co.uk

neu lawrwythwch bescyn gwybodaeth llawn o'n gwefan: www.camwrthgam.co.uk

Dyddiad cau: 23 Ionawr, 2015

Dilynwch ni: @camwrthgam  



Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Prif faterion diweddar.

1. Lampau Stryd Bont-goch

Adroddodd y Clerc y newyddion da, ar ôl blwyddyn o ddyfal barhau, bod lamp stryd Bont-goch wedi'i oleuo.

2. Tyllau yn y Ffordd

Adroddodd y Clerc iddi gysylltu gyda'r Cyngor Sir er mwyn cael diweddariad ar y gwaith ar dyllau'r ffyrdd, rhwng Penysarn a Chwm-Slaid, ffordd Cwm Ceulan, yr hewl rhwng y Llew Du a Brynhyfryd, yn ogystal â'r gwaith ym Mont-goch dros y groesffordd a hyd at Llety Ifan Hen. Yn ôl yr adran, mae'r gwaith ar dyllau ffordd Cwm-Slaid - Penysarn wedi ei gwblhau. Ategodd y Cynghorydd Enoc Jenkins fod gwaith wedi bod yn mynd ymlaen yno. Dywedodd yr adran ei bod wedi gwneud rhan o'r gwaith ar y safleoedd eraill lle mae'r tyllau, ond bod angen iddynt ddod allan eto i wneud rhagor o waith. Yr oedd y Cyngor Sir yn ymwybodol bod sawl patsyn sydd angen ei lenwi o hyd. Ychwanegodd y Cynghorydd Nest Jenkins fod nifer o dyllau ar hyd y trac ger Hen Gapel Ceulan. Cytunwyd i'r Clerc barhau i ddilyn y materion yma gyda'r Cyngor Sir.

3. Binau Halen

Adroddodd y Clerc ei bod wedi cysylltu gyda'r Cyngor Sir, a'i bod wedi cadarnhau y bydd binau halen Ceulanamaesmawr yn cael eu llenwi a'u harchwilio yn ystod y pythefnos nesaf. Cyfaddefodd y Cyngor Sir ei bod yn ymwybodol fod diffygion y binau halen wedi bod yn gwyn ers blwyddyn diwethaf. Cytunwyd i'r Clerc gadw mewn cysylltiad gyda'r Cynghorwyr dros y ddeufis cyn y cyfarfod nesaf ynglŷn â hyn.

4. Dychwelyd Cymhorthdal – Eglwys Dewi Sant, Tal-y-bont

Adroddodd y Clerc fod Eglwys Dewi Sant wedi dychwelyd cymhorthdal a roddwyd iddynt gan y Cyngor at gostau creu coflyfr ar gyfer Sul y Cofio gan fod y Lolfa wedi printio'r llyfryn am ddim. Estynnodd y Cynghorwyr air o ddiolch i'r Lolfa am ei rhodd hael.

5. Cymhorthdal ar Frys

Cytunwyd i dalu cymhorthdal ar frys i Glwb ar ôl Ysgol, Ysgol Gynradd Tal-y-bont o £300, er mwyn sicrhau bod y clwb yn rhedeg dros y misoedd nesaf.

6. Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda – Digwyddiadau Cyhoeddus

Derbyniwyd hysbys o ddigwyddiad cyhoeddus i drafod effaith Astudiaeth Gofal Iechyd y Canolbarth ar ysbyty Bronglais. Mi fydd cyfarfod Aberystwyth yn cael ei gynnal ar nos Lun, 15 Rhagfyr yng Nghanolfan y Morlan.

7. Traws Link Cymru – Cyfarfod Gyhoeddus

Derbyniwyd hysbys o gyfarfod cyhoeddus, lle bydd Traws Link Cymru yn cyflwyno ei gynlluniau, ac yn adrodd ar y datblygiadau diweddaraf. Maent yn disgwyl i Aelodau Seneddol, Cynghorwyr a chynrychiolwyr o Network Rail fod yn bresennol. Cynhelir y cyfarfod yng Nghanolfan y Morlan, Aberystwyth, Ionawr 15fed am 7yh.

Ysgol Llangynfelyn

Gwobr Platinwm Eco Sgolion

Mae'r ysgol wedi bod yn llwyddiannus iawn yn ennill Gwobr Platinwm Eco Sgolion. Rydym eisoes wedi ennill tair Baner Werdd a dyma'r wobwr uchaf y gellid ei gael. Mae'r plant a'r staff wedi bod yn gweithio'n galed ar y Cynllun Eco Sgolion ers ennill y Wobr Efydd nôl yn 2008. Cyflwynwyd gwobr gwydr arbennig, wedi'i wneud allan o wydr wedi'i ail-gylchu, i'r ysgol a baner werdd newydd. Llongyfarchiadau mawr iawn i bawb!

Ghana

Croesawyd Mrs Nelmes nôl i'r ysgol ar ôl ei hymweliad â Ghana. Mae hanes ei hymweliad ar dudalen 9 o Bapur Pawb. Daeth ag amryw o anrhegion nôl i'r plant gan gynnwys torch allwedd mewn ffurf drwm traddodiadol i bob un o'r plant a breichled yr un wedi eu gwneud gan un o gyn-ddisgyblion yr ysgol yn Ghana. Daeth ag arteffactau nôl i ysgolion Tal-y-bont a Chraig yr Wylfa hefyd iddynt ddangos i'r plant a'u harddangos yn eu hysgolion.

Gala Nofio'r Urdd

Llongyfarchiadau mawr i bob un o'r plant a fu'n cystadlu yng Ngala Nofio'r Urdd, Ceredigion yn Aberystwyth. Roedd safon y nofio'n uchel iawn. Llongyfarchiadau yn enwedig i Poppy Roberts am ddod yn ail allan o 35 o ferched Blynnyddoedd 3 a 4 yn y ras gefn.

Gŵyl Aml-Sgiliau Chwaraeon

Aeth Dosbarth Miss Jones i gae astrotyrff y Brifysgol yn Aberystwyth i gymryd rhan mewn Gŵyl Aml-Sgiliau Chwaraeon. Bu'r plant yn cymryd rhan mewn amryw o gemau ac yn cael blas ar wahanol chwaraeon yn ystod y sesiwn.

Plant Mewn Angen

Ar Ddiwrnod Plant Mewn Angen eleni, penderfynodd y plant wisgo eu pyjamas i'r ysgol a chynnal helfa drysor Pudsey. Cyfrannodd y plant arian tuag at gacen a diod a chodwyd £42 tuag at yr apêl.

Ifaciwis o Lerpwl

Ar y 18fed a'r 19eg o Dachwedd daeth 35 o blant a'u hathrawon i ymweld â'r ysgol o Ysgol Anfield Road, Lerpwl. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, bu plant Lerpwl yn aros yn yr ardal ac yn mynychu Ysgol Llangynfelyn. Yn ddiweddar ymwelodd disgyblion o'r un ysgol a ni a buom yn dysgu am fywyd ifaciwis yng Nghymru drwy edrych ar arteffactau o'r cyfnod, dysgu am hanes y ddwy ysgol drwy edrych ar hen lyfrau log yr ysgolion, mynd am dro yn yr ardal a sgwrsio gyda'r Parchedig W.J. Edwards a Mrs Pat Bates. Gwisgodd y plant fyny fel ifaciwis a gwisgodd y staff fyny hefyd mewn gwisgoedd o'r 40au.



O Geredigion i Ghana

Ers dwy flynedd bellach, mae Ysgol Tal-y-bont wedi bod yn rhan o brosiect 'Connecting Classrooms' sydd wedi ei ariannu gan y Cyngor Prydeinig. Aeth dwy athrawes o Dal-y-bont i Malawi a daeth athrawon o Malawi nôl i Gymru. Eleni, ymunodd ysgol o Ghana, sef Mensah Sarbah 'B' Basic School, yn y prosiect. Gan fod ysgolion Craig yr Wylfa a Llangynfelyn yn gweithio fel partneriaeth gydag Ysgol Tal-y-bont, ges i'r cyfle i gynrychioli'r tair ysgol ar ymweliad â Ghana.

Yn gynnar iawn ar fore'r 8fed o Dachwedd teithiais gyda phump o athrawon eraill o ysgolion Penglais, Padarn Sant, Llanarth, Ysgol Uwchradd Aberaeron ac Ysgol Queen Elizabeth High, Caerfyrddin i faes awyr Heathrow. Ar ôl rhyw naw awr yn yr awyr, cyrhaeddodd ni Accra, prif ddinas Ghana. Roedd hi'n hynod o boeth, tua 28°C am un ar ddeg o gloch y nos! Ar ôl noson mewn gwesty yn Accra dechreuon ar ein taith yn gyrru i'r gorllewin ar hyd arfordir Ghana. Roeddwn i'n aros mewn tref o'r enw Cape Coast, rhyw ddwy awr o Accra. Arhosais gydag un o athrawon Ysgol Mensah Sarbah, sef Frank

Aikins mewn tŷ bychan un-llawr. Roedd trydan yn y tŷ ond yn aml byddai'n diffodd heb rybudd. Roedd ystafell ymolchi ond nid oedd y dŵr yn rhedeg yn aml iawn.

Byddwn wedi cael fy neffro'n gynnar gan sŵn ceiliogod a chŵn a system gyhoeddusrwydd y gymdogaeth yn bloeddio newyddion a chynghor iechyd. Roedd Cape Coast yn le swllyd – trwy gydol y dydd a'r nos!

Roedd rhaid dal tacsî i'r ysgol bob bore. Roedd y daith i'r ysgol yn un dra gwahanol i deithio o gwmpas Aberystwyth! Byddai'r gyrwyr tacsî yn gyrru yn wyllt iawn, doedd neb fel petaent yn dilyn unrhyw reolau'r ffordd fawr, ond roedd pawb yn deall ei gilydd!

Adeilad concrit dau-lawr oedd yr ysgol yn sefyll ar ben llethr serth. Nid oedd ffenestri gwydr i'r adeilad ond 'shutters' pren i adael ychydig o awel y môr i mewn. Cefais groeso cynnes ar fy more cyntaf yn yr ysgol. Safodd y plant tu allan ar yr iard bridd mewn rhesi yn canu caneuon mewn Saesneg a Fante, iaith Cape Coast. Roedd drwm yn cadw'r curiad a cherddodd y plant mewn i'w dosbarthiadau. Dyma sut byddai'r plant yn



dechrau'r ysgol pob bore.

Roedd 175 o blant yn yr ysgol ac oherwydd cyfraniadau hael o ysgolion Tal-y-bont, Llangynfelyn, Craig yr Wylfa ac Ysgol Sul Bethel, roeddwn wedi prynu offer ysgrifennu a lliwio, pren mesur, rhwbiwr, miniogwr, losin a sticeri i bob un o'r plant. Roeddylnt wrth eu bodd gyda'u hanrhegion ac yn ddiolchgar.

Rhoddais bosteri a llyfrau Cymraeg iddynt, doli a draig Gymreig. Cyflwynais faner iddynt wedi ei harwyddo gan blant y tair ysgol a 5 pêl iddynt hefyd. Roeddylnt yn meddwl bod hyn yn ffantastig!

Saesneg oedd cyfrwng addysg yr ysgol, felly roedd hi'n hawdd cyfathrebu gyda'r plant. Roedd y plant wrth eu bodd yn gweld lluniau o'u hunain ar yr i-pad a byddent yn gweiddi "Cymra 'snap' ohonof i" drwy'r amser.

Yn ogystal â bod yn yr ysgol, cefais gyfle i weld ychydig bach o Dde Ghana. Aethon ni ar ymweliad i fferm goco. Teithion ni fewn i ganol y fforest law ar hyd ffyrdd cul a throellog. Ynghanol y fforest tyfai podiau coco ar foncyff y goeden. Byddai'r hadau'n barod y tu fewn unwaith byddai'r podiau yn troi'n felyn a'r ffermwr yn tynnu'r hadau allan a'u rhoi i sychu yn yr haul ac yna byddai'r ffermwr yn gwerthu'r hadau coco i'r llywodraeth. Wedyn aethon ni i Kakum National Park. Mae pontydd rhaff wedi eu hadeiladu rhwng y coed yn uchel yn y canopi. Rydych yn medru cerdded ar draws y pontydd yn hollol saff ac edrych lawr ar y fforest law islaw. Profiad cyffrous ond ofnus iawn hefyd!

I orffen ein diwrnod, aethon ni i Gastell Cape Coast sef castell i garcharu caethweision cyn iddynt gael eu cludo i America.

Ar fy niwrnod olaf, gwnaeth y plant wasanaeth ffarwelio arbennig. Canwyd caneuon yn eu gwisgoedd traddodiadol yn dawnsio i sŵn drwm. Cefais anrhegion arbennig gan yr athrawon a'r plant sef dwy ffrog wedi'u gwneud allan o ffabrig lliwgar Ghana.

Mae gennyf lawer o atgofion am Ghana – y ffrwythau ffres fel pinafal, cnau coco a melon ddŵr ar werth am un Cedi sef 20c yr un, ffrogiau lliwgar y merched, babis o bob oed yn cael eu cario ar gefn y merched, y marchnadoedd lliwgar yn gwerthu popeth o dan haul, geifr a ieir yn crwydro yn rhydd ym mhobman gan gynnwys yn yr ysgol, plant yn chwarae pêl-droed ar draeth gyda choed palmwydd yn y cefndir, gwasanaeth Capel 'God-done' (yn dra wahanol i Gapel Bethel!), y gwres, y tlodi, y sŵn a'r arogleuon gwahanol ond y peth mwyaf fyddaf yn cofio bydd y plant hyfryd a'u gwenau hapus.

Byddwn yn croesawi athrawon o Malawi a Ghana nôl atom yn y Gwanwyn.

Rhian Nelmes –
Ysgol Llangynfelyn



Dwi'n cofio un
Nadolig pan ...

...codais ar fore Nadolig yn
Nhroed y Fedwen a gweld
doli glwt ar erchwyn y gwely.
(1940au)

Cyngerdd Aberopera

30 Ionawr, Neuadd Goffa Tal-y-bont

Yn rhan o'r ymgyrch i godi arian i osod diffibrileiddwyr yn Nhal-y-bont, cynhelir 'Noson Opera' gan AberOpera gydag ambell gerddor gwadd arall – a hynny ar 30 Ionawr yn Neuadd Goffa, Tal-y-bont.

Grŵp o gantorion lleol yw AberOpera sydd wedi cyflwyno sawl noson o adloniant operatig dros y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys yn Aberystwyth, Machllynlleth ac yn Llandinam.

Mae'r grŵp yn cynnwys myfyrwyr ar ddechrau eu gyrfa, cantorion lleol adnabyddus sydd wedi ymddangos ar lwyfannau cyngerdd ac opera, ac amaturiaid dawnus eraill.

Rhaglen boblogaidd fydd yn cael ei chyflwyno ac mi fyddwch yn siŵr o adnabod ambell i dôn o ffilmiau a hyd yn oed hysbysebion!

Gallech hyd yn oed ddod mewn gwisg addas at noson yn yr opera – petai hynny'n apelio... Bydd lluniaeth ysgafn a raffi (croeso mawr i unrhyw un sy'n awyddus i gyfrannu gwobr at yr achos).

Bydd posteri gyda manylion pellach yn ymddangos o gwmpas yr ardal yn fuan. Am ragor o fanylion cysylltwch â Jenny Fothergill ar 01970 832544 / 07866 011296

S4C

y gwyll. hinterland

9.00
1 Ionawr

Mae DCI Mathias yn ôl mewn pennod unigryw arbennig.

#ygyll
s4c.co.uk

S4C Clic  

Dwi'n cofio un Nadolig pan ...



... roedd Santa bob amser yn dod draw ar Noswyl Nadolig, cyn i ni fynd i'r gwely. Y Nadolig arbennig hwn, fedrwn i ddim disgwyl i'r haul fachlyd a gweld y canhwylau ym mhob ffenest yn y pentref. Traddodiad sydd wedi parhau hyd heddiw yn Iwerddon, a hefyd ym Mhontgoch. Symbol yw'r gannwyll i adlewyrchu'r Nadolig cyntaf a thaith Mair a Joseff i Fethlehem. Swper Noswyl Nadolig oedd - ac yw o hyd - y pryd gorau yn y tŷ drwy'r flwyddyn. Ham-wedi-ferwi Nadoligaidd a bara brown cartref fy Mam. Byddai gwledd yn cael ei adael allan i Santa, tua 10 o'r gloch - roedd hi'n amser adrodd y rosari deuluol. (1981)

... roedden ni blant yn rhoi un o sannau dad ar waelod y gwely a disgwyl yn llawn cyffro am Sion Corn. Yna yn y bore rhedeg lawr at Mam a Dad gyda'r hosan oedd yn llawn cnau mwnci ac un oren. Rwy'n cofio cael llyfr Teulu Bach Nantoer a Mam yn ei ddarllen i mi. (1930au)

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Cymorthdaliadau 2014/15

Gwahoddir ceisiadau am gymorth ariannol oddi wrth gymdeithasau a mudiadau gwirfoddol lleol. Dylid anfon ceisiadau ynghyd â chopi o'r fantolen ddiweddaraf at:

Lowri Jones

Y Clerc, Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr
d/o Frongoch View, Tre'r Ddol, Machynlleth
Powys SY20 8PN
j.lowri@yahoo.co.uk

Dyddiad Cau:

Dydd Iau 8 Ionawr 2015

Garej Paul Joseph

01970 822220

Pob Math o Geir
Gwasanaeth a Thrwsio
Diagnosteg a Weldio
Paratoi a Thrwsio MOT



Dan Glo, Lon Glanfred, Llandre

Y Fframdy

Mae'r gweithdy yn darparu gwasanaeth fframio dychmygus o'r safon uchaf. Cewch ddewis o amrediad eang o siapiau gosod a fframiau. Bydd y fframdy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw anghenion unigol.

Y Fframdy, Glanceri, Y Borth, Ceredigion SY24 5JA
Ffôn: 01970 871042
Symudol: 07773 846659

James Memorials

Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU

Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

O'r Cynulliad

Mae'r esgid economaidd yn dal i wasgu yng Ngheredigion, gyda chyflogau segur a thwf chostau byw yn broblem i nifer. Mae unrhywbeth sy'n helpu lleddfu'r baich i'w groesawu, ac roeddwn yn falch o helpu lansio'r cynllun 'Clwb Clyd' yn ddiweddar. Cynllun yw hwn i annog effeithlonrwydd ynni, ac i alluogi mwy o bobl i brynu ar y cyd er mwyn arbed ar eu biliau. Mae angen hyn yng Ngheredigion, lle mae'r gyfran o bobl sydd ddim ar y grid nwy yn uchel iawn:- 70%, yn uwch nag ucheldir yr Alban. Mae nifer o grwpiau lleol eisoes yn bodoli - cymerwch olwg ar wefan 'Clwb Clyd' i weld os oes un yn eich ardal chi.

Bydd dyfodiad y gaeaf hefyd yn gonsyrn i'r rheiny sy'n byw lle mae llifogydd yn gallu bod yn broblem. Wrth gwrs, gwelsom broblemau llynedd mewn sawl man, ac mi fûm yn siarad gyda phobl mewn sawl ardal am gynlluniau i wella'r sefyllfa at y dyfodol. Mae'n glir fod Aberteifi nawr yn flaenoriaeth uchel i Gyfoeth Naturiol Cymru ac maent hefyd yn edrych ar gynlluniau pellach yn Llanbadarn a mannau eraill. Mae'n hollbwysig fod y gwahanol asiantaethau yn cydweithio, a byddaf yn pwysu am gynnydd ar y cynlluniau yma.

Bydd busnesau lleol, wrth gwrs, yn edrych ymlaen at gyfnod pwysig o'r flwyddyn. Rwy'n sicr y bydd nifer yn cefnogi diwrnod cenedlaethol y siopau lleol ar Ragfyr y 6ed, ac yn cymryd mantais ar y busnesau a'r cynnyrch lleol gwyh sydd i gael yng Ngheredigion. Cefais nifer o gyfleon yn ddiweddar i drafod hynt a helynt busnesau bach, gan gynnwys ymweliad â gwinllan newydd Llaethliw yn Nyffryn Aeron, a sesiwn hawl i holi gyda Ffederasiwn y Busnesau Bach.

Gwyh hefyd oedd cael y cyfle i fynychu Eisteddfod Genedlaethol y Ffermwyr Ifanc ym Mhonthrhydfendigaid. Cafodd ei drefnu'n wych gan CFFI Ceredigion, ac ar ddiwedd diwrnod brwd o gystadlu, y clybiau lleol aeth a hi. Da iawn bawb!

Elin Jones

Y Gair Olaf



Rwyf newydd gael fy ysbrydoli wrth ddarganfod ac arbrofi dull o roi wyneb newydd i hen gelfcyn, sydd yn dangos ei ddannedd. Y term cyfoes yw "upcycling". Mae'r dechneg yn bodoli ers blynnyddoedd ond roedd yn newydd i fi. Felly roeddwn yn edrych ymlaen at dreialu'r peth dros hanner tymor. "Y peth" yw paent sialc. Roedd gennyf hen gwpwrdd, pren tywyll, a fyddai'n edrych yn well ar ôl "driniaeth".

Mae'r "Seld", yn Aberaeron, a "Medi" yn Nolgellau, yn gwerthu'r paent. Y paent nes i brynu oedd "Annie Sloan", ac os ewch ar y we fe welwch sampl o'r lliwiau a hefyd fideo byr sy'n arddangos y dechneg. Mae'r siart paent yn hudol - enwau'r lliwiau a'r disgrifiadau a gallwch archebu ar lein.

Y peth oedd yn apelio oedd y ffaith nad oedd angen paratoi, dim rhwbio na gorfod aros dros nos i'r paent sychu. Gallwch ddefnyddio unrhyw frws, er bod brws arbennig i'w gael. Es ati dros hanner tymor; rhoddais y got gyntaf yn y bore a'i adael i sychu am ond hanner awr! Ar ôl rhoi'r ail got bu rhaid aros dros ginio iddo sychu'n llwyr. Er mwyn ei selio mae angen rhwbio neu frwsio cwyr di-liw i mewn i'r paent. I gael effaith mwy aeddfed gallwch rwbio cwyr brown i mewn i orffen. Mae hyn yn swnio'n od ond mae'r cwyr brown yn heneiddio ac yn meddalu ei wedd. (Mae'r cwyr clir a'r brown ar werth hefyd). Erbyn amser te roedd gennyf ddarn o ddodrefn oedd wedi ei drawsnewid. Yn fy marn i roedd yn edrych yn ffantastig i gymharu â'r gwreiddiol. Wrth edrych yn y drych rwy'n meddwl boi'n drueni nad oes rhywbeth tebyg ar gyfer adnewyddu fy nghroen innau ...

Oes rhywun yn gwybod am "upcycling" i fodau dynol?

Sandra Laverty

papurpawb.com

Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT

HUWLEWISTYRES.COM

Glanyrafon

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.

Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan **ALIGNMYCAR.CO.UK**

Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000
LLANBED 01570 422221

Rhodfa'r Parc

trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy

ffôn 832 612
07835 525 553

Neuadd Goffa, Tal-y-bont,
Nos Fawrth am 7.30- 9.00.

Pris £5.00
Cysylltwch a
Sue Jones-Davies
01970 624658

Garej Davmor



- Petrol a Diesel
- Gwasanaethu, trwsio, MOT a theiars
- Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion
- Llogi fan a bws mini, gwerthiant ceir
- Siop Gyfleustra drwyddedig

Y garej gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont

01970 832278 www.davmorgarage.co.uk

STORFA CANOLBARTH CYMRU

Storfa Cartref a Busnes

Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion
Monitro Diogelwch 24 Awr - Wedi ei wresogi

Bocses a 'bubblewrap' ar lein
www.boxshopsupplies.co.uk

Ffon: 01654 703592
www.midwalesstorage.co.uk

Heol Y Ddraig, Machynlleth, SY20 8BQ

INVESTORS | BUDDSODDWR
IN PEOPLE | MERNYR POBL

CHWARAEON



Dyma dîm dan 11 mlwydd oed Teriys Tal-y-bont gyda'u cit newydd a noddwyd gan Angharad Evans, 'Coco's Truck Stop'. Cafwyd cymorth hefyd gan y Gist Gymunedol – diolch am eu cefnogaeth.

Mae'r tîm, sydd dan ofal Carwyn Evans a Bernard Morris, ar ôl dechrau da yn cael tymor cymysg mewn cynghrair gref. Diolch i'r hyfforddwyr am eu gwaith gyda'r chwaraewyr ifainc a phob lwc i'r tîm yn ystod y tymor.



Badminton

Llongyfarchiadau mawr i Ioan Joseph am gael y dystysgrif yma am chwarae ardderchog wrth chwarae i Glwb Badminton y Borth. Da iawn ti.



Robbie Southgate ar fin pasio i James Fox, sgoriwr y ddwy gôl i Dal-y-bont)

Y LLEW GWYN TAL-Y-BONT

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.

Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00

Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £7.50

Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £7.50

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00

(Un cwr: £7.95 Dau gwr £9.95)

Ystafelloedd ar gael

01970 832245

whitelionhotel1@btconnect.com

argraffu da am bris da



yLolfa

holwch Paul am bris ar paul@yloffa.com
01970 832 304 www.yloffa.com

Fox yn y bocs

Mae record ddiguro Tal-y-bont yn Adran I, Cynghrair Cambrian Tyres Aberystwyth a'r cylch, yn parhau wedi buddugoliaeth yn erbyn Aberdyfi ar Gae'r Odyn Galch ar 6 Rhagfyr. Sgoriodd James Fox ddwy gôl gynnar i Dal-y-bont ac er yr ildwyd gôl ychydig cyn yr egwyl, nid oedd goliau i'r naill dîm na'r llall yn yr ail hanner. Er nad oedd yr ymosod yn bygwth digon a'r canol cae yn well yn amddiffynol nag wrth greu, roedd yr amddiffyn yn gadarn gyda Des Roberts fel craig yn y gôl.

Bellach mae Tal-y-bont yn y trydydd safle yn y tabl ond gyda thair gêm mewn llaw ar Bow Street, sydd ar y brig, a Thregaron sy'n ail. Petai'r tîm yn ennill un o'r gemau mewn llaw byddant ar y brig, felly gallwn ddisgwyl ail hanner cyffrous i'r tymor.

Yn anffodus mae'r tîm allan o gwpan Len a Julia Newman wedi iddynt ildio mantais o 3-1 yn y gêm yn erbyn Eilyddion Borth ar Sadwrn olaf Tachwedd. Sgoriodd Borth deirgwaith yn y 15 munud olaf i gipio'r fuddugoliaeth.

Ar 6 Rhagfyr hefyd fe gipiodd yr ail dîm bwynt gwerthfawr oddi cartref yn erbyn Eilyddion Aberdyfi wedi gêm gyfartal 2-2. Chris Wylde a Ryan Morris sgoriodd y goliau.